

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

20 Gorffennaf 2021

Annwyl Julie,

Cwestiynau dilynol ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 15 Gorffennaf 2021 i roi tystiolaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd ('y Bil').

Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch chi i ofyn am eglurhad pellach a/neu wybodaeth ychwanegol am y materion isod.

### **Pwerau cydredol plws**

Dywedoch wrthym nad bwriad Llywodraeth Cymru yw i'r Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r pwerau cydredol plws yn Rhan 3 o'r Bil. Fodd bynnag, dywedoch wrthym hefyd fod angen y pwerau hyn er mwyn bod yn barod ar gyfer y dyfodol.

1. A allwch roi esboniad manwl o'r amgylchiadau lle credwch y byddai'n briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio defnyddio'r pwerau cydredol plws?
2. A allwch nodi'r meini prawf y byddai Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid cydsynio i'r defnydd o bwerau cydredol plws?
3. Dywedoch wrthym y byddai'r Senedd yn cael cyfle i roi barn ynghylch a ddylai Gweinidogion Cymru gydsynio i'r defnydd o bwerau cydredol plws. Nid oes proses ffurfiol ar waith ar hyn o bryd i hwyluso hyn. Sut ydych yn rhagweld y bydd y broses hon yn gweithio'n ymarferol?

### **Rhan 1 - Llywodraethu amgylcheddol**

Dywedoch wrthym eich bod yn gobeithio cyflwyno bil llywodraethu amgylcheddol i Gymru yn ystod ail flwyddyn y Chweched Senedd.

4. A allwch egluro a ydych yn bwriadu ymgynghori ar gynigion manwl ar gyfer system llywodraethu amgylcheddol newydd? Os felly, pa amserlen ydych chi'n gweithio tuag ati?

5. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud hyd yma i ddatblygu cynigion ar gyfer targedau amgylcheddol statudol?

Dywedodd eich rhagflaenydd wrth Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd ei bod yn mynd ar drywydd gwelliant i'r Bil gyda Defra i sicrhau bod darpariaeth addas ar gyfer gwaith ar y cyd rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a chorff llywodraethu amgylcheddol i Gymru yn y dyfodol.

6. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y mater hwn? Os yw'r Bil wedi'i ddiwygio, a allwch gadarnhau eich bod yn fodlon ei fod yn darparu'n ddigonol ar gyfer gweithio ar y cyd?

### Rhan 3 - Effeithlonrwydd o ran gwastraff ac adnoddau

Dywedoch wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn benderfynol o gyflwyno Bil plastigau i wahardd plastigau untro. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru eisoes y pŵer i wneud hyn o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ('Deddf 1990').

7. Pam mae angen cyflwyno bil i wahardd plastigau untro o ystyried bod gennych y pŵer i wneud hyn eisoes?

8. A allwch roi rhagor o wybodaeth am eich cynigion ar gyfer bil plastigau yn y dyfodol, a'r amserlen sydd gennych mewn golwg ar gyfer ei chyflwyno?

9. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am eich trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch effaith bosibl Deddf y Farchnad Fewnol ar eich cynigion i wahardd plastigau untro?

### Rhan 5 - Dŵr

10. A allwch egluro pwrpas y darpariaethau ar gyfer Cymru yn Rhan 5 o'r Bil, a sut a phryd rydych yn bwriadu defnyddio'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Rhan 5?

11. A allwch egluro a yw'r darpariaethau yn Rhan 5 yn rhyngweithio â'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi, ac os felly, sut?

### Rhan 8 - REACH

12. Pa asesiad ydych wedi'i wneud o'r risgiau posibl o ddargyfeirio rheoleiddiol o'r UE yn y maes hwn? A ydych o'r farn bod cyfundrefn REACH newydd y DU yn rhoi'r un lefel o ddiogelwch â chynllun yr UE y mae wedi'i ddisodli?

13. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd Fframwaith Cyffredin terfynol ar gemegau a phlaladdwyr ar gael?

### Goblygiadau ariannol

Yn ôl y Memorandwm, "Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i'r Senedd ar hyn o bryd o ganlyniad i gymryd y pwerau hyn yn y bil hwn".

14. Pa waith ydych wedi'i wneud i asesu'r costau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil?

Yn ystod ein cyfarfod, dywedoch wrthym eich bod yn aros am ymateb gan Lywodraeth y DU i'ch cais am oedi yn nhrefodion Senedd y DU ar y Bil er mwyn rhoi rhagor o amser i'r Senedd graffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r amserlen graffu.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion a nodir yn y llythyr hwn erbyn **dydd Gwener 30 Gorffennaf 2021**.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS  
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.